CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Clerc/Clerk: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, 5ed Ebrill 2019 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mrs Anne Williams, Mr Huw Lloyd, Mr Geraint Jones, Mr John W Jones a Mr David Williams a Mrs Becky Mollinson White

Cynghorydd Sir – Mabon ap Gwynfor

Cyhoedd – Mr Andy Morgan a Mr David Robinson

Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Mrs Rhiannon Jones

Cyn cychwyn y cyfarfod, gwahoddwyd Mr David Robinson i ein arwain trwy'r adroddiad dichonoldeb (feasibility) o adeilad yr Hen Ysgol. Mae copi ar gael gan y clerc i unrhyw un sydd eisiau ei ddarllen. Mae'r Cyngor cymuned yn gefnogol i'r pwyllgor yr Hen Ysgol i gyfarfod gyda Sir Ddinbych, ond heb gytuno eto i gymryd cyfrifoldeb o'r adeilad nes y bydd mwy o wybodaeth ar gael.

3. **COFNODION CYFARFOD MAWRTH 1af, 2019**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.
4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
   - **Westcotec –** cost am 2 arwydd yn £6710.00 (£3355 yr un) + TAW. Cafwyd gwybodaeth gan Mabon (ebost) yn cynnig arwyddion dros dro yn yr haf i drio cyn buddsoddi yn yr arwyddion gan Westcotec. Penderfynu i dderbyn cynnig Sir Ddinbych.
   - **Hendwr –** cael mwy o fobol i yrru cwyn i'r Sir am yr arogl, ac fe all hyn gwneud mwy o effaith
   - **Torri Gwair Fynwent –** yr eglwys wedi arwyddo y cytundeb, nawr yn disgwyl i Russell i ddod i arwyddo gyda tystysgrifau yswiriant a defnyddio cemegolion.
   - **Bocs Ffon –** BT yn edrych i mewn i ail beintio y bocs.
   - **Carthffosiaeth –** y clerc heb gael ymateb yn ôl gan y Bwrdd Dwr
   - **Cerbydau 4x4 –** cafwyd cyfarfod gyda Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru a tirfeddianwyr lleol i drafod y problemau gyda cerbydau a beiciau modur yn yr ardal.

5. **GOHEBIAETH**
   - **Un Llais Cymru** – cyfarfod yn ysgol Pentrefoelas, 10fed o Ebrill am 7 o'r gloch.
   - **Awdit Allanol - BDO** – gwaith papur wedi cyrraedd, angen bod mewn erbyn 1af o Orffennaf. Maria yn fodlon gwneud yr awdit mewnol eto eleni.
   - **Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020** – cyfarfod wedi ei drefnu i drafod Cinio Dydd Sul, Ocsiwn addewidion a cyngerdd Dafydd Iwan – nos Iau, 11eg o Ebrill am 8 o'r gloch

6. **MATERION CYNLLUNIO – Dim Materion**

7. **MATERION ARIANNOL**

- Cyflog Clerc - £2000 (100104)
- AVOW - Asiant cyflog - £75 (100105)
- HMRC - £500 (100106)
- Ganolfan – defnydd ar gyfer pwyllgorau Adeilad yr Hen Ysgol - £30 (100107)
- Arwyn Roberts – gwaith ar y cae chwarae - £700 (100108)

8. GDPR – Dim Materion

9. MATERION O'R GYMUNED

- **Plotiau beddi yn y fynwent** – mae'r clerc wedi sylweddoli nad oes cofnodion o'r hen leiniau claddu a werthwyd dros y blynyddoedd. Y clerc wedi holi clercod blaenorol, ond nid oes ganddynt hwythau atgof o unrhyw gofnodion.
- **Parcio yn Rhos Helyg** – fe hoffai Becky Mollinosn White i'r cyngor gofnodi ei phryder am y parcio ar y stad yn Rhos Helyg, a'r peryg wrth ymuno a ffordd Dinam.
- **Gwrych terfyn Tyddyn Llan a'r B4401** – dim wedi ei neud ynglŷn a'r mater, a'r gwrych yn gwaethygu. Y? Clerc i yrru llythyr ar ran y Cyngor Cymuned i Tyddyn Llan.
- **Cwlfert yn y Faerdref wedi blocio** – trigolion wedi ei ryddhau eu hunain yn ddiweddar, ac angen i'r Sir ei gynnal.
- Britain in Bloom – mae aelodau o drigolion Llandrillo wedi cysylltu a aelod o'r cyngor ynglŷn a chystadlu yn 'Britain in Bloom'. Mae'r Cyngor yn llwyr gefnogol o hyn.
- **Angen rhoi crynodeb o'r** munudau y pwyllgorau Cyngor Cymuned yn Stores.
- **Clerc yn ymddiswyddo** – hysbysodd y clerc ei bwriad i adael ei swydd fel clerc diwedd Gorffennaf wedi iddi gwblhau yr awdit allanol.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……